

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

Crynodeb o'n Hymateb

Mae hwn yn ymgynghoriad pellgyrhaeddol, sy'n cyffwrdd â llawer o feysydd o fewn cylch gwaith uniongyrchol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae rhai o'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad wedi'u trafod mewn ymarferion ymgynghori ar wahân, e.e. *Manteisio i'r eithaf ar bob Diferyn – Diwygio'r System Rheoli Tynnu Dŵr yng Nghymru*¹ Gan ystyried ehangder a chwmpas y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, mae ein hymateb yn eang. Mae'n hanfodol bod y cyfleoedd i integreiddio rhwng sectorau yn cael eu gwireddu'n llawn er mwyn sicrhau aliniad i'r amcanion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r ffyrdd y gweithredir hyn. Mae ein hymateb yn nodi'r bylchau a'r mecanweithiau ychwanegol, gan gynnwys mecanweithiau cyllido, y gallai fod angen eu datblygu er mwyn llwyr wireddu buddion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan sbarduno buddion di-ri i bobl a lleoedd ym mhob rhan o Gymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer rheoli tir ac amaeth, lle mae Brexit yn debygol o yrru newidiadau sylweddol. Rydym ni'n credu bod angen trafodaeth bellach â'r sector rheoli tir yn benodol, er mwyn mireinio'r cynigion Mynediad i gynllunio dull sydd wedi'i alinio'n llawn i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gefnogi ecosystemau cryf, incymau fferm posibl yn ogystal â llywio'r buddion llesiant i bobl a chymunedau.

Pennod 1 – Tuag at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Yn gyffredinol, rydym o blaid y cynigion ym Mhennod 1. Fodd bynnag, rydym yn credu bod cyfle i edrych yn fwy cyfannol ar draws rheoliadau, mentrau a ffyrdd o weithio er mwyn nodi ffyrdd o yrru'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Er bod y pwyslais presennol ar ddulliau rheoleiddiol yn bwysig, nid yw hwn ond yn rhan o'r amrywiaeth ehangach o ddulliau sydd ar gael i gyflawni'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rhyngweithiad synergaid yr holl elfennau hyn fydd yn ffurfio rhan o fframwaith gyflenwi cynhwysfawr. Bydd dylunio elfennau ochr yn ochr â'i gilydd yn fwy tebygol o gyflawni synergeddau buddiol.

Pennod 2 – Coedwigaeth

Rydym yn credu bod y cynigion ar gyfer Coedwigaeth ym Mhennod 2 yn ddefnyddiol ac yn gefnogol o ran ein helpu i fwrw ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Yn benodol, rydym yn croesawu'r cynigion ar ddirprwyo cyfrifoldebau, cymeradwyo cynlluniau rheoli coedwigoedd, ychwanegu mathau eraill o amodau at drwyddedau cwmpo coed, y gallu i ddirymu a diwygio trwyddedau cwmpo coed, a diddymu'r gofyniad am bwyllgor cynghori rhanbarthol oherwydd byddant yn cynyddu ein gallu

¹ <https://naturalresources.wales/media/1663/making-the-most-of-every-drop-consultation-on-reforming-the-water-abstraction-management-system.pdf>

ymhellach i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n fwy cynaliadwy. Fodd bynnag, o ystyried canlyniadau pellgyrhaeddol posibl nifer o'r cynigion hyn, mae angen llawer mwy o eglurder a manylion o ran geiriad diwygiadau gwirioneddol er mwyn sicrhau bod natur flaengar eang y syniad y tu ôl iddynt yn cael ei wireddu'n ymarferol.

Pennod 3 – Tirweddau Dynodedig

O ran y cynigion ar gyfer Tirweddau Dynodedig ym Mhennod 3, credwn nad oes unrhyw rwystrau deddfwriaethol ar droed ar hyn o bryd sy'n ein rhwystro rhag archwilio ffyrdd newydd o weithio er mwyn cyflawni canlyniadau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella'r model cyflenwi trwy wneud addasiadau i'r polisi, y weithdrefn a'r arfer. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws i gyflawni'r agenda newydd, a daeth llawer o'r cyfleoedd hyn i'r amlwg yn Adroddiad Marsden 2015. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y byddai gwneud yr addasiadau hyn yn fwy effeithlon o ran amserlenni ac adnoddau, ac yn cyflwyno cyfle i wneud y defnydd gorau posibl o'r swît gyfreithiol newydd heb orfod gwneud diwygiadau cyn iddo gael ei brofi'n llawn.

Pennod 4 – Mynediad at yr Awyr Agored

Wrth ystyried y cynigion ar gyfer Mynediad ym Mhennod 3, pwysleisiwn yr angen i gydbwysio buddion mynediad agored â'r effeithiau y gallai hyn eu cael ar gyflawni ein dyletswyddau statudol tuag at rywogaethau a warchodir, safleoedd dynodedig a physgodfeydd. Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn canolbwyntio'n eglur ar gefnogi cydnheredd yr ecosystem, ac rydym yn credu bod angen mireinio'r cynigion er mwyn diogelu rhag y canlyniadau anfwriadol y gallai mynediad agored eu cael ar gydnerthedd a bioamrywiaeth yr ecosystem. Rydym hefyd yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod tiffeddianwyr yn elwa ar y cyfleoedd a allai ddod yn sgil mwy o fynediad. Yn ein barn ni, mae angen i Lywodraeth Cymru ddod â'r holl sectorau â budd ynghyd i fireinio'r cynigion ar gyfer mynediad, er mwyn datblygu mecanweithiau ategol a fydd yn sicrhau bod mwy o fynediad i bawb hefyd yn cefnogi busnesau fferm hyfyw, yn ogystal â'r buddion llesiant ehangach i bobl a chymunedau, trwy Fforwm Mynediad Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r cynnig i ddatblygu Cod Mynediad Statudol yn gam allweddol o'r broses hon.

Pennod 5 – y Môr a Physgodfeydd

Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn buddion posibl y cynigion cynllunio morol is-genedlaethol, rydym yn pwysleisio gwerth cael profiad o gynllunio morol ar lefel genedlaethol, trwy'r Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru disgwylidig, cyn archwilio cynlluniau is-genedlaethol ymhellach. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael y dasg o ddatblygu Datganiadau Ardal ar gyfer ardal forol Cymru. Mae hyn yn gyfle pwysig i gasglu ynghyd tystiolaeth a fireiniwyd yn lleol sy'n llywio'r gwaith o weithredu'r polisi cenedlaethol a nodwyd yn y cynllun. Gallai hyn hwyluso'r gwaith o fynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn.

Mae cyfuno'r gwaith o gynllunio a gwneud penderfyniadau am y rhyngwyneb rhwng tir a môr yn parhau i fod yn heriol. Mae cynlluniau morol a thirrol yn gweithredu o dan ddeddfwriaeth wahanol, a rhoddir caniatadau a thrwyddedau perthnasol gan amrywiaeth o awdurdodau. Rydym yn awgrymu camau gweithredu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i roi mwy o bwerau i Weinidogion Cymru i reoli pysgodfeydd morol yn hyblyg. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cefnogi'r ffaith y bydd pwerau addasol yn cael eu darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru i'w galluogi i agor a chau pysgodfeydd morol ar fyr rybudd ac mewn ymateb i gyflyrau amgylcheddol nas rhagwelwyd. Bydd y diwygiadau deddfwriaethol penodol hyn yn cyfrannu at reoli adnoddau pysgodfeydd morol Cymru yn gynaliadwy, ond mae angen ystyried effeithiolrwydd y deddfwriaeth yn yr hirdymor yng nghyd-destun y deddfwriaeth newydd ar gynaliadwyedd yng Nghymru, y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a thirwedd gyfansoddiadol ddatganoledig newidiol ar ôl Brexit.

Pennod 6 – Dŵr

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i wella'r amgylchedd dŵr, fel y nodir ym Mhennod 6 o'r ymgynghoriad hwn. Rydym yn credu bod yr ymgynghoriad a'r broses Brexit gyfredol yn gyfle i fabwysiadu dull integredig a syml o reoli dŵr, gan wella'r dulliau sydd wedi'u mabwysiadu yng nghyfarwyddebau cyfredol yr UE.

Nodwn fod ymgynghoriad wedi'i gynnal o'r blaen ar y cynigion ar gyfer Diwygio Tynnu Dŵr, *Manteisio i'r eithaf ar bob Diferyn, Diwygio'r System Rheoli Tynnu Dŵr yng Nghymru*, ac rydym yn parhau i gefnogi'r rhaglen hon. Mae Pennod 6 hefyd yn cynnwys cynigion a drafodwyd ynghynt mewn ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru, *Gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy ar gyfer Datblygiadau newydd*. Gellir dod o hyd i'n hymatebion i'r ymgynghoriadau blaenorol hyn ar ein gwefan²³.

Pennod 7 – Gwastraff ac ansawdd yr amgylchedd lleol

Mae'r cynigion ym Mhennod 7 yn ymwneud â manylion penodol ynghylch pwerau cyfreithiol Cyfoeth Naturiol Cymru, megis pŵer mynediad a dal, a phwerau'r awdurdod lleol i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig. O ran y cynigion i newid pwerau mynediad Cyfoeth Naturiol Cymru, pwysleisiwn yr angen i sicrhau bod y pwerau newydd arfaethedig yn mynd y tu hwnt i Ddeddf yr Amgylchedd 1995, i gynnwys pwerau mynediad o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 a Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, er mwyn sicrhau cysondeb.

Pennod 8 – Rheoliadau Doethach – swyddogaeth mesurau sylfaenol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi datblygiad a chyflwyniad mesurau sylfaenol fel dull o reoleiddio gweithgareddau risg isel, fel y cynigir ym Mhennod 8. Mae

² <https://naturalresources.wales/media/1663/making-the-most-of-every-drop-consultation-on-reforming-the-water-abstraction-management-system.pdf>

³ <https://naturalresources.wales/media/682489/implementation-of-sustainable-drainage-systems-on-new-developments.pdf>

Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y dylai mesurau sylfaenol gael eu cyflwyno ar gyfer gweithgareddau lle y mae tystiolaeth sy'n dangos cyswllt rhwng gweithgarwch risg isel ac effaith annerbyniol. Rydym yn credu y byddai Mesurau Sylfaenol yn chwarae rhan hanfodol mewn fframwaith rheoleiddio diwygiedig sy'n cefnogi'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. I gefnogi fframwaith rheoleiddio diwygiedig, byddem hefyd yn cynnig mynediad ehangach at Sanctsiynau Sifil, y tu hwnt i'r gyfres gyfyngedig o drefniadau y maent ar gael ar eu cyfer yng Nghymru. Mae Sanctsiynau Sifil yn elfen hanfodol o'r model rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yr ydym yn ei gynnig yn ein sylwadau trosfwaol, sy'n darparu fframwaith gorfodi cymesurool o dan y llawr rheoleiddio.

Pennod 9 – Amaeth

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o blaid y cynnig ym Mhennod 9 i ehangu awdurdodaeth Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, er mwyn cynnwys y dadleuon hynny lle mai'r unig ddull datrys sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd yw cymrodeddu o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. Caiff 80% o'r tir yng Nghymru ei ffermio, a chaiff cyfran sylweddol o hwn ei reoli o dan drefniant tenantiaeth. Gall natur y berthynas rhwng landlordiaid a thenantiaid felly gael effaith fawr ar reoli adnoddau naturiol. Rydym yn ymwybodol y gall trefniadau tenantiaeth cyfredol ei gwneud hi'n fwy anodd cytuno ar bwy sy'n gyfrifol am osod a/neu foderneiddio seilweithiau megis storfeydd slyri. Yn y cyd-destun hwn, bydd unrhyw fesur sy'n gwella'r gallu i ddatrys dadleuon yn haws yn debygol o gyflwyno buddion ychwanegol o ran rheoli adnoddau naturiol.

Pennod 10 – Bywyd Gwyllt

Wrth ystyried y cynigion ym Mhennod 10, nodwn nad yw ein cylch gwaith yn cynnwys lles anifeiliaid, ond rydym yn ymwneud â gwarchod rhywogaethau a warchodir. Yn fwy cyffredinol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r angen i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bywyd gwyllt er mwyn darparu gwelliannau i'r gwaith o reoli ac amddiffyn bywyd gwyllt. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu bod yr ymgynghoriad cyfredol yn cyflwyno cyfle i gyflenwi elfennau o'r adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith y cyfeirir ato.

Pennod 11 – Asesu Cynigion Polisi

Rydym yn croesawu'r cynigion hyn a'r camau i foderneiddio'r ddeddfwriaeth a bwrw ati i greu Cymru fwy iachus a mwy cyfartal, yn unol â'r uchelgais a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

O ystyried bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu'r cyd-destun ar gyfer y diwygiadau hyn, byddem yn disgwyl i'r cynnydd ar y rhain gyflawni ar bynciau fel hawliau dynol, yr iaith Gymraeg a nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, ni chaiff y goblygiadau ar gyfer yr iaith Gymraeg eu trafod yn benodol ac nid oes ystyriaeth lawn wedi'i roi i'r nodweddion gwarchodedig.